



Swyddog Datblygu Cynorthwyol Meirionnydd

- Cytundeb:** I gychwyn Medi 1af 2017.
- Oriau:** 21 awr yr wythnos (yn cynnwys oriau anghymdeithasol - nos a phenwythnosau)
- Cyflog:** Graddfa 4: £16,793 pro rata
- Swyddfa:** Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
- Dyddiad cau:** Awst 1af 2017 am 10.00yb.
- Dyddiad Cyfweiliadau:** Awst 31ain 2017.

Am ragor o fanylion, cysylltwch a Mared Lois Jones at mared@urdd.org.

Ffurflenni cais ar wefan yr Urdd – www.urdd.cymru

Anfonir y ffurflen gais yr Urdd at:

Sian Rogers/Mared Jones
Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned Gogledd a Chanolbarth Cymru
Gwersyll yr Urdd Glan Llyn
Llanuwchllyn
Y Bala
LL23 7ST

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y swydd:	Swyddog Datblygu Cynorthwyol Meirionnydd 21 awr yr wythnos	Lleoliad:	Swyddfa Glan-Llyn
Adran:	Maes	Yn gyfrifol am:	n/a
Yn atebol i :	Swyddog Datblygu Meirionnydd a thrwyddo ef i Gyfarwyddwr y Dalaith.	Gradd:	Gradd: 4 (£16,793 – 19,468 pro rata)

Prif bwrpas y swydd:

Cynorthwyo'r Swyddog Datblygu gyda holl elfennau o waith leuenctid a Chymunedol yn Rhanbarth Meirionnydd. Prif ddiben gwaith ieuencid yw "galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfrannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgiadol, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas a gwireddu eu llawn potensial."

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Cynorthwyo o fewn y maes drwy ymweld a chynnal gweithgareddau o fewn adrannau ysgol ac o fewn adrannau, uwch-adrannau ac aelwydydd cymunedol ynghyd a chefnogi gwaith yr arweinyddion a'r gwirfoddolwyr
- I gynyddu cyswllt gyda pobl ifanc 11-25 oed gan gynnig gweithdai/digwyddiadau /Teithiau/Achrediadau a Chyfleoedd Gwirfoddoli. Cydlynu Fforwm Ieuencid y Rhanbarth gan annog presenoldeb yn Bwrdd Syr IfanC.
- Presenoldeb o fewn Ysgolion Uwchradd y Rhanbarth gan ddatblygu gweithgareddau penodol.
- Cydlynu gweithgareddau Haf y Rhanbarth.
- Trefnu a mynychu cyrsiau Gwersyll gan sicrhau fod plant a phobl ifanc yr ardal yn cael cyfle i fynychu cyfnod preswyl yng ngwersylloedd yr Urdd.
- Cynorthwyo'r Swyddog Datblygu gyda gweithgareddau rhanbarthol pan fo angen yn cynnwys trefniadau a mynychu Teithiau, Eisteddfodau a Chwaraeon .
- Bydd targedau penodol i gynyddu niferoedd sy'n mynychu gweryllloedd yr Urdd yn ogystal ag aelodaeth yr Urdd.

- Cynnig hysbysfwrdd ymhob ysgol Uwchradd os yn bosib a fydd yn cael ei adnewyddu yn dymhorol.
- Hybu aelodau i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r mudiad ar raddfa ranbarthol a thaleithiol.
- Sicrhau fod cofnod o'r gwaith gan gynnwys data ar niferoedd a gweithgareddau yn cael ei gadw ar raglen penodol a gwefan yr Urdd.
- Diweddarau safle Wê ac App 'Fy Ardal' y Rhanbarth gan edrych yn benodol hefyd ar facebook a Twitter y Rhanbarth.

Hanfodol:

- Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu da.
- Gallu gweithio ar liwt eu hunain ac hefyd cydweithio fel aelod o dim.
- Bod a thrwydded yrru lan a defnydd o gar ar gyfer y swydd gan fod teithio yn rhan annatod o'r dyletswyddau.

Dymunol:

- Profiad o weithio yn uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc - boed yn gyflogedig neu yn wirfoddol.
- Cymhwyster Gwaith leuenctid Lefel 2/3 – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd
- Hyfforddiant lechyd a Diogelwch a Chymorth cyntaf – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd.
- Mynychu cwrs Asesu Risg (Off-Site Safety) – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd.

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd i'w dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma Mis Mehefin 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff)

Teitl y swydd:	Swyddog Datblygu Cynorthwyol Meirionydd
Yn atebol i:	Swyddog Datblygu Meirionnydd a thrwyddo ef i Gyfarwyddwr y Dalaith.
Cyflog:	Ar raddfa 4 Strwythur Cyflog yr Urdd £16,793 (Pwynt 1) - £19,468 (Pwynt 6). Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol
Cytundeb:	Penodol
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 21 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg.
Lleoliad:	Swyddfa Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn
Gwylliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol (pro rata) ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus (pro rata) - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu. Bydd y gwylliau'n cynyddu i 28 diwrnod (pro rata) ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod (pro rata) ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis.
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.